



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Aer Glân i Bort Talbot

Cynllun Gweithredu Tymor Byr

2012

ISBN 978-0-7504-9608-7

WG18990 © Hawlfraint y Goron 2013

Cynnwys

Cynnwys	1
1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir	4
3. Cyfrifoldebau	12
4. Llywodraethiant	14
5. Camau Gweithredu Tymor Byr	16
6. Monitro a Gwerthuso	24
Atodiad 1: Cofnod Monitro	25
Atodiad 2: Cofnod Gwerthuso	26
ATODIADAU	27
1. Rolau a Chyfrifoldebau	28
2. Adroddiad UWE	34
3. Nodyn cyngor AQEG	34
4. Adolygiad Trwyddedau Rheoleiddwyr	35
5. Cynllun Gweithredu Aer Glân CBSCPT	36
6. Siarter Aer Glân	37
7. Rhaglen waith Tîm Data Port Talbot <small>PM10</small>	37
8. Cylch Gorchwyl ar gyfer gweithgorau	38
9. Treftadaeth Ddiwydiannol	39
10. Ansawdd Aer – y cyd-destun deddfwriaethol	40
11. Byrfoddau a Rhestr Termau	43

1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Tymor Byr i Awdurdodau Cymwys (STCAAP) ar Ddeunydd Gronynnol Illai na 10 micron mewn diamedr (PM₁₀) yn ardal drefol Abertawe (sy'n cynnwys Castell-nedd Port Talbot) yn 2008. Paratowyd y cynllun hwnnw yn unol â'r gofynion a osodwyd ar Weinidogion Cymru gan reoliad 11 o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007.

Roedd rheoliad 11 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynhyrchu cynllun gweithredu yn nodi'r mesurau tymor byr i'w cymryd o fewn unrhyw barth o dan amgylchiadau lle mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod risg mynd uwchlaw un o'r canlynol:

- (a) gwerth terfyn¹;
- (b) y trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid²; neu
- (c) y trothwy rhybuddio ar gyfer osôn³.

Yn seiliedig ar ddata monitro, roedd Gweinidogion Cymru o'r farn bod risg o fynd uwchlaw gwerth terfyn y PM₁₀ ym Mharth y De, yn enwedig yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae Cynllun Gweithredu Tymor Byr i Awdurdodau Cymwys (STCAAP) 2008 yn nodi'r mesurau i'w cymryd o fewn y parth hwnnw:

- i leihau'r risg o fynd uwchlaw gwerth terfyn neu drothwy rhybuddio perthnasol; neu
- lle nad oes modd atal hynny rhag digwydd, i gyfyngu ar ei hyd neu ei ddifrifoldeb.

Nid oes gofyniad cyfreithiol am STCAAP mwyach. Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 wedi disodli Rheoliadau 2007. Mae Rhan 5 erthygl 21 (5) yn nodi y gellir llunio Cynllun Gweithredu Tymor Byr (STAP) lle mae risg

¹ gweler Atodlen 1 o Reoliadau 2007 am werthoedd terfyn llygryddion Grŵp A sydd ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/717/schedule/1/made>

² gweler Atodlen 2 o Reoliadau 2007 am y trothwyon rhybuddio sydd ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/717/schedule/3/made>

³ gweler rheoliad 11(2), (3) a (4) o Reoliadau 2007 sydd ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/717/contents/made>

o fynd uwchlaw unrhyw un o'r gwerthoedd terfyn (er enghraifft, PM_{10}). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei fod yn adnodd hollbwysig i wella ansawdd aer ym Mhort Talbot. Ers cyhoeddi STCAAP 2008, cafwyd datblygiadau yn y ddealltwriaeth o lygredd aer ym Mhort Talbot:

- Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth annibynnol i adolygu'r gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas â llygredd PM_{10} yn ardal Castell-nedd Port Talbot ers 2000. Cynhaliwyd yr astudiaeth hon gan Brifysgol Gorllewin Lloegr (UWE), ac fe'i cyhoeddwyd yn 2009. Darparodd yr astudiaeth gyngor i Weinidogion Cymru ar fesurau pellach i ganfod ffynonellau Deunydd Gronynnol. (Gweler Atodiad 2)
- Yn 2010, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer (AQEG) ddarparu barn arbenigol annibynnol ar: (Gweler Atodiad 3)

“What methodologies or approaches are required to advance the evidence base in order to assess the impact of the different current particle sources within the Port Talbot area on the resultant Particulate Matter (PM) levels in the local area?”

- Un o elfennau allweddol cynllun gweithredu tymor byr 2008 oedd i'r rheoleiddwyr amgylcheddol adolygu'r trwyddedau amgylcheddol sydd gan waith dur Port Talbot ar gyfer allyriadau Deunydd Gronynnol. (Gweler Atodiad 4)

Mae Llywodraeth Cymru, y rheoleiddwyr (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCPT)) a gweithredwyr y diwydiant yn gweithio mewn partneriaeth i weithredu'r argymhellion o'r adolygiadau hyn.

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau a diwygio STCAAP 2008 i gynhyrchu Aer Glân i Bort Talbot, Cynllun Gweithredu Tymor Byr 2012.

Rôl y cynllun hwn yw dangos y camau gweithredu, uwchlaw'r gweithgareddau presennol o ddydd i ddydd, a gymerir pan fo risg o lefelau uwch.

Bydd hon yn ddogfen ddeinamig sy'n esblygu o hyd i sicrhau bod modd

ymgorffori canfyddiadau unrhyw astudiaethau yn y dyfodol pan fo hynny'n briodol.

Bydd y cynllun hwn yn cyfeirio hefyd at wybodaeth, adroddiadau a chynlluniau gweithredu eraill sy'n gweithio tuag at wella ansawdd aer ym Mhort Talbot.

2. Cefndir

Yn hanesyddol, mae gan Bort Talbot lefel uchel o lygredd a briodolir i natur ddiwydiannol yr ardal. Mae'r safle diwydiannol mawr sy'n gweithredu ar ffin yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yn cael ei gydnabod fel cyfrannwr mawr. Mae'r safle diwydiannol hwn i'w weld yn Ffigur 1. Mae allyriadau sy'n ffoi o'r safle diwydiannol yn debygol o fod yn ffactor sylweddol hefyd. Yn ogystal, mae yna allyriadau sy'n deillio o sefydliadau diwydiannol eraill y tu allan i'r safle hwn, trafndiaeth ffyrdd, ffynonellau domestig, prosiectau adeiladu, ffynonellau naturiol (megis ewyn y môr) a ffynonellau trawsffiniol.

Mae cyfuniad o'r ffynonellau posibl hyn yn ardal Port Talbot wedi arwain at anawsterau wrth gyflawni'r safonau ansawdd aer ar gyfer PM_{10} ers eu cyflwyno yn Strategaeth Ansawdd Aer 2000, a ddiwygiwyd yn 2007. Mae yna ofynion penodol i awdurdodau lleol wneud gwelliannau i ansawdd aer lleol. Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru yn dal i boeni am y risg bosibl y gall crynodiadau PM_{10} ym Mhort Talbot fynd uwchlaw'r gwerth terfyn cymedrig dyddiol perthnasol a osodwyd yng Nghyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop ac a gafodd eu trosi yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Mae'r safon a'r gwerth terfyn yn nodi na ddylai'r crynodiad cymedrig dyddiol o $50 \mu\text{g}/\text{m}^3$ fynd y tu hwnt i'r terfyn hwn fwy na 35 gwaith mewn blwyddyn galendr.


Ffigur 1: Ffotograff o'r awyr o Ardal Rheoli Ansawdd Aer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Taibach/Margam wedi'i hamlinellu'n




goch.

0 0.1 0.2 0.4 Milltir
|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|


Ffigur 2: Map o Ardal Rheoli Ansawdd Aer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Taibach/Margam wedi'i hamlinellu'n goch



a'i lliwio.



Ffigur 3 Lleoliadau monitro PM₁₀ ym Mhort Talbot ac achosion o fynd uwchlaw'r terfyn yn ystod 2011



Allwedd:

Mae'r sgwariau melyn yn dangos monitorau a weithredir gan CBSCTP.
Mae'r groes felen yn dangos monitor a weithredir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Sicrhau bod gwybodaeth am lefelau llygredd aer ar gael i'r cyhoedd

Mae llygryddion sy'n cael eu cwmpasu gan Gyfarwydddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop yn cael eu monitro gan yr Automatic Urban and Rural Monitoring Network (AURN) a monitorau eraill, gan gynnwys safleoedd awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r AURN. Mae data o'r monitorau hyn ar gael i'r cyhoedd. Mae'r data'n cael ei asesu'n fanwl gan arbenigwyr ansawdd aer dan gontract i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys trwy archwiliadau sicrhau ansawdd cyfnodol ffurfiol, i sicrhau eu cywirdeb a'u cadernid.

Mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am barthau, crynodiadau a rhybuddion ynghylch torri safonau ansawdd aer ar gael i'r cyhoedd trwy wefan UK Air Quality a gwefan Ansawdd Aer Cymru, sydd ar gael trwy fynd i'r dolenni canlynol:

Gwefan Ansawdd Aer Cymru: <https://airquality.gov.wales/cy>

Gwefan UK Air Quality: <http://www.airquality.co.uk>

Er gwaethaf hynny, mae angen i ddata o'r system AURN a safleoedd cysylltiedig gael ei ddilysu a'i raddnodi gan arbenigwr cyn y gellir ei ystyried fel asesiad cwbl ddibynadwy o ansawdd aer a'r potensial i fynd uwchlaw'r trothwy; bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr holl ddata sydd ar gael o safleoedd AURN wrth asesu'r risg o fynd uwchlaw'r gwerth terfyn neu drothwy rhybuddio perthnasol. Gall data o safleoedd monitro perthnasol eraill y tu allan i'r AURN gael ei ystyried hefyd lle mae'r gwaith o weithredu offer a sicrhau ansawdd data wedi'i gwblhau i safon uchel. Fodd bynnag, mae safleoedd AURN at ddefnydd darparu cymhariaeth swyddogol â gwerthoedd terfyn statudol yn unig. Mae hyn o ganlyniad i sicrwydd bod yr offer a'r systemau rheoli data a sicrhau ansawdd a ddefnyddir yn yr AURN yn bodloni gofynion Cyfarwydddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop. Mae trosolwg o orsafoedd monitro PM¹⁰ yn ardal Port Talbot yn Nhabl 1.

Tabl 1: Trosolwg o safleoedd Monitro presennol yn ardal Port Talbot

Lleoliad	Math o Safle	Llygryddion sy'n cael eu Monitro	Rhwydwaith	Dyddiad sefydlu'r safle	Math o fonitor
Margam, Port Talbot – yr orsaf dân	Diwydiannol Trefol	Gronynnau (PM ₁₀ a PM _{2.5}) Nitrogen Deuocsid, Sylffwr Deuocsid, Carbon Monocsid, Osôn	AURN	24/07/2007	FDMS + Partisol
Little Warren, Port Talbot	Diwydiannol Trefol	Gronynnau (PM ₁₀)	Awdurdod Lleol	24/01/2012	FDMS
Dociau Port Talbot	Diwydiannol Trefol	Gronynnau (PM ₁₀)	Awdurdod Lleol	13/10/2008	FDMS
Heol Talbot, Port Talbot	Ochr ffordd	Gronynnau (PM ₁₀)	Awdurdod Lleol	15/01/2009	FDMS
Heol Theodore, Port Talbot	Diwydiannol Trefol	Gronynnau (PM ₁₀)	Awdurdod Lleol	01/04/2009	FDMS
Stryd y Tywysog, Port Talbot	Diwydiannol Trefol	Gronynnau (PM ₁₀ a PM _{2.5}) Sylffwr Deuocsid, Carbon Monocsid	Cyfoeth Naturiol Cymru	01/01/2010	FDMS + Partisol + TEOM
Parc Twll-yn-y-Wal, Port Talbot	Ochr ffordd	Gronynnau (PM ₁₀)	Awdurdod Lleol	13/12/2008	FDMS
Ysgol Dyffryn, Port Talbot	Cefndir Trefol	Gronynnau (PM ₁₀)	Awdurdod Lleol	16/07/2007	FDMS

Tabl 2: Data monitro PM_{10} hanesyddol ar gyfer Port Talbot, 2007-2012

Nifer yr Achosion o Fynd Uwchlaw'r Trothwy (% cyfradd cipio data flynyddol)						
Safle / Blwyddyn	2007	2008	2009	2010	2011	2012
Port Talbot	31 (53.69)					
Ysgol Dyffryn, Port Talbot	1 (45.42)	10 (95.58)	4 (99.29)	6 (99.02)	2 (70.17)	3 (86.11)
Margam, Port Talbot (FDMS)	14 (42.67)	34 (92.48)	15 (97.4)	3 (50.51)	29 (98.32)	12 (96.81)
Margam, Port Talbot (Partisol)				11 (82.47)	32 (97.53)	7 (60.64)
Dociau Port Talbot		0 (21.45)	7 (99.47)	2 (92.42)	11 (98.33)	5 (98.12)
Parc Twll-yn-y-Wal, Port Talbot		0 (5.09)	9 (99.2)	14 (98.5)	21 (93.55)	8 (98.2)
Heol Talbot, Port Talbot			6 (94.86)	1 (96.32)	14 (94.02)	8 (79.96)
Heol Theodore, Port Talbot			3 (73.06)	2 (97.53)	12 (97.33)	2 (94.34)
Stryd y Tywysog, Port Talbot				19 (94.43)	50 (98.17)	11 (60.02)
Little Warren, Port Talbot						2 (85.25)
Stryd y Tywysog, Port Talbot (FDMS yn unig)						12 (64.13)

Ffynhonnell: <https://airquality.gov.wales/cy> ar 09/10/2012. noder: mae nifer y diwrnodau o fynd uwchlaw'r trothwy yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio data a gedwir ar Gronfa Ddata Ansawdd Aer Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r gronfa ddata yn cadw crynodiadau i werthoedd cyfanrifol yn unig, felly gall nifer yr achosion o fynd uwchlaw'r trothwy amrywio o'r rhai a gyfrifir yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd. Mae'r dull hwn yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb y CE ac yn dibynnu ar gywirdeb yr offer.

Aer Glân i Bort Talbot, Cynllun Gweithredu
Tymor Byr 2012.

-Tudalen 11 o 43

3. Cyfrifoldebau

Dyma grynodedb o rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn eu gwaith o wella ansawdd aer ym Mhort Talbot. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 1.

- Llywodraeth Cymru

Mae gwella ansawdd aer yn amcan allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â ffynonellau PM_{10} a sicrhau hawl pobl i aer glân. Mae ansawdd aer wedi bod yn gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae llawer i'w wneud o hyd felly byddwn yn parhau i weithio tuag at wneud gwelliannau pellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni gwerthoedd terfyn a sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop yng Nghymru. Rydym yn cymryd ein rhwymedigaeth i leihau llygredd aer o ddifrif. Fodd bynnag, ein hymrwymiad cryf i amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd yw ein sbardun, yn hytrach na dim ond deddfwriaeth Ewropeaidd.

Er mwyn gallu gwneud cynnydd go iawn wrth fynd i'r afael â materion ansawdd aer ym Mhort Talbot, mae angen arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru. Gweler Pennod 5 ar Drefniadau Llywodraethu.

- Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru amryw o ddyletswyddau yn ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio allyriadau o gyfleusterau diwydiannol o dan deddfwriaeth yr UE, felly mae ganddo rôl yn y gwaith o sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r UE ar atal a rheoli llygredd integredig (IPPC), Cyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop, Cyfarwyddeb 2004/107/EC ar As, Cd, Hg, Ni a PAHs yn yr aer amgylchol a Chyfarwyddeb 2001/81/EC ar Derfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu awdurdodau lleol i wella ansawdd aer lleol.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCPT) ddyletswydd o dan adran 84 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i asesu ansawdd aer a datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) lle ystyrir bod amcan ansawdd aer yn debygol o gael ei dorri. O ganlyniad, cafodd AQMA Taibach Margam ei datgan yn 2000 a Chynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) ei fabwysiadu yn 2002. Yn ddiweddar, adolygodd y Cyngor yr AQAP er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol a chyfredol.

Mae'r Cyngor yn parhau i reoleiddio Civil & Marine Slag Cement, is-gontractwr yn y safle gwaith dur, yn unol â'r drwydded, a chwblhaodd adolygiad o'r drwydded ar gais Llywodraeth Cymru yn 2008.

Mae'r Cyngor yn monitro PM_{10} mewn saith lleoliad ym Mhort Talbot.

4. Llywodraethiant

Mae sicrhau ein bod yn cymryd y camau priodol i wella ansawdd aer ym Mhort Talbot yn hollbwysig. Rhaid i'r camau hynny gael eu hadeiladu ar sail dystiolaeth gadarn i sicrhau bod mesurau'n cael eu targedu ac yn effeithiol yn y tymor byr ac i'r dyfodol. Ein nod yw sicrhau bod llwyddiant y gwaith partneriaeth presennol rhwng y Llywodraeth, Rheoleiddwyr a Gweithredwyr yn parhau.

Amlinellwyd y trefniadau llywodraethu yn STCAAP 2008. Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd er mwyn eu hadnewyddu a'u gwella. Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwella ein cysylltiadau gwaith â'n partneriaid er mwyn gwella'r ansawdd aer i drigolion Port Talbot.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â gweithredwyr y gwaith dur, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i nodi ffynonellau posibl ac atebion ar gyfer lefelau PM_{10} uchel.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn mynd rhagddo yn y fforymau canlynol:

- Grŵp Llywio, sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, sy'n adolygu gwaith parhaus ac yn cyfeirio adnoddau'n briodol.
- Grŵp Rheoleiddwyr, sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, sy'n adolygu'r camau sy'n cael eu cymryd gan y rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru ym Mhort Talbot.
- Tîm Data, sy'n cyfarfod yn fisol, sy'n adolygu'r data ar PM_{10} ac yn gwella'r gwaith o reoli a dehongli'r data ar draws y gwahanol sefydliadau.

Cymeradwywyd y trefniadau hyn yn yr adolygiad AQEG diweddar. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y grwpiau wedi'i lunio gyda mewnbwn gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (sydd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru), Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Harsco, Tarmac a Tata Steel UK. Mae'n adlewyrchu'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau llygredd PM_{10} ym Mhort Talbot a sicrhau cyfathrebu rhagorol rhwng y sefydliadau partner.

Mae'r dogfennau Cylch Gorchwyl ar gyfer pob grŵp yn Atodiad 8.

Tîm Data _{PM10} Port Talbot

Y Tîm Data yw'r gweithgor technegol sy'n craffu ar dystiolaeth bresennol ac yn diffinio pa waith sydd angen ei wneud yn y dyfodol i'w chynnal a'i gwella. Mae'r sail dystiolaeth hon yn sail i ddatblygu camau effeithiol i leihau crynodiadau _{PM10} ym Mhort Talbot. Mae'n gyfrifol am adolygu'r wybodaeth am _{PM10} a gwella'r gwaith o reoli a dehongli data ar draws y gwahanol sefydliadau. Mae'r grŵp hwn yn asesu canlyniadau gwaith dadansoddi ac effeithiolrwydd buddsoddiadau a threialon ac yn ceisio sicrhau bod yr argymhellion yn Adroddiad UWE (Atodiad 2) a nodyn cyngor AQEG (Atodiad 3) yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, CBSCPT a diwydiannau lleol. Mae'n hwyluso perthynas waith agos rhwng pob parti o ran dadansoddi a deall ansawdd aer yn AQMA Taibach/Margam.

Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys trafod cynnydd yn erbyn pob eitem yn y rhaglen waith _{PM10} hon. Mae hyn yn cynnwys:

- monitro,
- ansawdd data,
- dadansoddi data,
- dosrannu ffynonellau,
- mesuriadau rhywogaethau cemegol, a
- modelu gwasgariad.

Mae Tîm Data _{PM10} Port Talbot yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Grŵp Llywio i alluogi ei waith cynllunio adnoddau a strategol.

Mae gwaith y Tîm Data _{PM10} yn cael ei adolygu gan gymheiriaid allanol [1] i helpu i sicrhau bod y rhaglen waith yn parhau i ganolbwyntio ar ei nod o ddarparu sail dystiolaeth gadarn sy'n addas i'r diben, a'i fod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r methodolegau a'r data gwyddonol.

[1] Mae'r adolygiad gan gymheiriaid allanol yn cael ei gynnal gan Brifysgol Gorllewin Lloegr o dan Rif Contract Llywodraeth Cymru: C-135/2011/12

5. Camau Gweithredu Tymor Byr

Fel y nodwyd yn gynharach, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd, ynghyd â chyflawni gwerthoedd terfyn a sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop yng Nghymru. Mae'r camau gweithredu tymor byr a nodir yn rhan o'r mecanwaith i gyflawni'r holl amcanion hyn.

Bydd camau'n cael eu cymryd os bydd y cyfartaledd dyddiol o $50\mu\text{g}/\text{m}^3$ yn codi uwchlaw'r terfyn ar nifer fawr o ddiwrnodau ym Mhort Talbot yn ystod unrhyw flwyddyn galendr. Mae Llywodraeth Cymru'n asesu data o'r holl fonitorau ledled y dref, yn hytrach na dim ond y monitor swyddogol ym Margam, Port Talbot – yr orsaf dân.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff arbenigol eraill ac adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i nodi ffynonellau llygredd posibl a all gyfrannu at y risg o fynd uwchlaw'r trothwy.

Amseru

Mae'r amser ymyrraeth priodol ar gyfer y camau hyn yn cael ei benderfynu gan y model canlynol.

I helpu i leihau'r risg o fynd uwchlaw'r cyfartaledd dyddiol o $50\mu\text{g}/\text{m}^3$ ar fwy na 35 diwrnod erbyn diwedd y flwyddyn galendr, datblygwyd model uwchgyfeirio. Cafodd y model a'r trothwyon eu datblygu gan Arbenigwr Technegol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (sydd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru) yn seiliedig ar dueddiadau data hanesyddol. Bydd y model yn helpu ein proses benderfynu ac yn nodi pryd y dylem ystyried camau neu ymyriadau sy'n mynd y tu hwnt i'n gweithgareddau safonol.

Mae'r model yn cymharu nifer y diwrnodau tramgwydd sy'n berthnasol i'r sefyllfa bresennol yn y flwyddyn galendr, ac yn nodi a yw nifer y diwrnodau tramgwydd


yn anghymesur o uchel. Er enghraifft, byddai cyfanswm o 20 o dramgwyddau yn ystod chwe mis cyntaf blwyddyn yn peri pryder mawr ac yn sbarduno ymyriadau mwy caeth na chyrraedd cyfanswm o 20 o dramgwyddau erbyn mis Rhagfyr.

Mae'r model uwchgyfeirio yn cynnwys pedwar dangosydd mewn perthynas â'r camau gofynnol:

- Gwyrdd – mae nifer y tramgwyddau yn isel ar gyfer adeg y flwyddyn ac mae'r mesurau rheoli eang presennol yn lleihau allyriadau PM₁₀ yn effeithiol.
- Ambr – mae nifer y tramgwyddau yn nesáu at lefel uchel ar gyfer adeg y flwyddyn, felly byddai ymyriadau ychwanegol yn cael eu cynnal a byddai'r sefydliadau perthnasol yn gwneud paratodau i leihau'r risg o gyrraedd yr ardal goch.
- Coch – mae gan y gyfradd bresennol o dramgwyddau y potensial i gyrraedd 35 erbyn diwedd y flwyddyn galendr, felly byddai Llywodraeth Cymru yn galw cyfarfod o'r sefydliadau perthnasol i ystyried cymryd Camau Gweithredu Tymor Byr. Nod y Camau Gweithredu Tymor Byr hyn yw cael effaith yn syth i wella ansawdd aer.
- Pinc – os bydd gan y gyfradd o dramgwyddau y potensial i fynd uwchlaw 35 ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, ystyrir pa fesurau ychwanegol y dylid eu cychwyn.

Er y gellir priodoli achosion o fynd uwchlaw'r trothwy ar y cyfartaledd dyddiol i effaith ffynonellau naturiol^[1] neu llygredd trawsffiniol (h.y. llygredd a gynhyrchir yn un wlad yn cael ei gludo i wledydd sy'n ffinio â'r wlad honno), bydd y mesurau rheoli sy'n cael eu dethol yn cael eu haddasu yn unol â hynny. Yn yr achosion hyn, efallai mai ychydig iawn o gamau gweithredu lleol, os o gwbl, fydd yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y llygredd aer ym Mhort Talbot.

[1]bydd cyfraniadau o ffynonellau naturiol yn golygu allyriadau llygryddion nad ydynt yn cael eu hachosi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan weithgareddau dynol, gan gynnwys digwyddiadau naturiol megis echdoriadau folcanaidd, gweithgareddau seismig, gweithgareddau geothermol, tanau gwyllt, digwyddiadau gwyntoedd cryfion, ewyn y môr neu ailgyflwyniad atmosfferig neu gludiant gronynnau naturiol o ranbarthau sych. I gael mwy o fanylion, ewch i: <http://ec.europa.eu/environment/air/quality/legislation/assessment.htm>



Gweithredu

Cod y Mesur	Wales_001
Mesur	Nodi camau gweithredu tymor byr priodol o ystyried yr amgylchiadau penodol ar y pryd.
Disgrifiad o'r Mesur	Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfod i ddwyn ynghyd yr holl bartïon perthnasol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCPT)) i nodi'r camau gweithredu tymor byr priodol o ystyried yr amgylchiadau penodol ar y pryd.
Sefydliad Arweiniol	Llywodraeth Cymru

Cod y Mesur	Wales_002
Mesur	Monitro camau gweithredu.
Disgrifiad o'r Mesur	Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd ar unrhyw gamau gweithredu a gytunwyd a'u canlyniadau.
Sefydliad Arweiniol	Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyhoeddi cyfarwyddiadau ffurfiol i'r rheoleiddwyr amgylcheddol i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith.

Camau Gweithredu

Mae'r camau gweithredu dethol yn debygol o ddeillio o'r canlynol (ond heb eu cyfyngu iddynt):

Cod y Mesur	Wales_003
Mesur	Rheoleiddio gwaith dur
Disgrifiad o'r Mesur	Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal gwiriadau cydymffurfiaeth pellach i bennu a yw gweithredwyr y gwaith dur yn cydymffurfio â'r gofynion yn ei Gynllun Rheoli Ansawdd Aer (a gyflwynwyd yn yr Hysbysiadau Amrywiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012).
Sefydliad Arweiniol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Cod y Mesur	Wales_004
Mesur	Camau gweithredu pellach o safle'r gwaith dur
Disgrifiad o'r Mesur	Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod gyda gweithredwyr y gwaith dur y gwelliannau tymor byr pellach y gallant eu gwneud i leihau lefelau PM_{10} o'r safle. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ofynion y rhaglen wella yn yr Hysbysiadau Amrywiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012. (Noder – er y darparwyd ymatebion cychwynnol ym mis Ebrill 2012, disgwylir yr ymateb manwl erbyn diwedd mis Mehefin 2013).
Sefydliad Arweiniol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Cod y Mesur	Wales_005
Mesur	Model uwchgyfeirio.
Disgrifiad o'r Mesur	Cyfoeth Naturiol Cymru i barhau i ddefnyddio ei "fodel uwchgyfeirio" wrth reoleiddio gweithgareddau diwydiannol ar safle'r gwaith dur. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau ar lefelau uwch yn y sefydliadau.
Sefydliad Arweiniol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Cod y Mesur	Wales_006
Mesur	Gwiriadau rheoli traffig ar y safle
Disgrifiad o'r Mesur	Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu'r mesurau rheoli traffig ar safle'r gwaith dur (Tata Steel UK, Harsco a Tarmac). Byddai hyn yn cynnwys asesiad o gamau gweithredu'r cwmni i atgoffa gyrwyr o fesurau rheoli traffig a'u cynlluniau archwilio ar gyfer asesu cydymffurfiaeth. Gall gynnwys gwiriadau traffig go iawn. Mae cyflymderau priodol yn arwain at greu llai o lwch mân, yn enwedig o ffyrdd heb eu gwneud.
Sefydliad Arweiniol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Cod y Mesur	Wales_007
Mesur	Addasu gwaith adeiladu
Disgrifiad o'r Mesur	CBSCPT a Costain i atal, addasu neu leihau gweithgarwch ar adeiladu'r Ffordd Ddosbarthu Berifferol (PDR) (cyn ei chwblhau).
Sefydliad Arweiniol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cod y Mesur	Wales_009
Mesur	Cyfyngiadau traffig traffordd
Disgrifiad o'r Mesur	Gall Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno mesur gorfodi cyflymder cyfartalog ar yr M4 trwy Bort Talbot gyda'r nod o sicrhau llif esmwyth y traffig.
Sefydliad Arweiniol	Llywodraeth Cymru

Cod y Mesur	Wales_010
Mesur	Atalyddion ar ffyrdd y safle
Disgrifiad o'r Mesur	Cyfoeth Naturiol Cymru i annog y gwaith dur i ddefnyddio atalyddion cemegol ar ffyrdd y safle. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i dreialu gwahanol atalyddion, er enghraifft, asetad calsiwm magnesiwm (CMA). (Mae hyn wedi'i ddefnyddio mewn treialon yn Llundain).
Sefydliad Arweiniol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Cod y Mesur	Wales_011
Mesur	Atalyddion ar ffyrdd yr awdurdod lleol
Disgrifiad o'r Mesur	CBSCPT i ystyried treial o atalyddion llwch ar briffyrdd ym Mhort Talbot. (Er enghraifft, CMA sydd wedi'i ddefnyddio mewn treialon yn Llundain).
Sefydliad Arweiniol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cod y Mesur	Wales_012
Mesur	Lleihau gweithgarwch diwydiannol
Disgrifiad o'r Mesur	Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod gyda 3 o weithredwyr gwaith dur Port Talbot (Tata Steel UK, Tarmac a Harsco) neu unrhyw safle diwydiannol arall a drwyddedir gan CNC, y gostyngiad dros dro gwirfoddol ym mewnbwn y ffatri neu aildrefnu gwaith cynnal a chadw nad oes brys mawr amdano.
Sefydliad Arweiniol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Cod y Mesur	Wales_013
Mesur	Lleihau gweithgarwch diwydiannol
Disgrifiad o'r Mesur	CBSCPT i drafod gyda'i safleoedd a reoleiddir yn lleol (gan gynnwys Civil & Marine) y gostyngiad dros dro gwirfoddol ym mewnbwn y ffatri neu aildrefnu gwaith cynnal a chadw nad oes brys mawr amdano.
Sefydliad Arweiniol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cod y Mesur	Wales_014
Mesur	Rheolaethau cynllunio
Disgrifiad o'r Mesur	CBSCPT i ystyried cyfyngiad neu addasiad dros dro ar weithrediadau adeiladu ar ddiwrnodau PM ₁₀ uchel ar unrhyw ddatblygiadau lleol gyda chaniatâd cynllunio CBSCPT (yn ystod y broses caniatâd cynllunio).
Sefydliad Arweiniol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cod y Mesur	Wales_015
Mesur	Atal Trwyddedau Amgylcheddol
Disgrifiad o'r Mesur	Gweinidogion Cymru i ystyried arfer unrhyw bwerau priodol i gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru neu gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i atal trwyddedau amgylcheddol mewn cyfleusterau perthnasol.
Sefydliad Arweiniol	Llywodraeth Cymru

Dylai'r camau gweithredu uchod gael eu cymryd yn ystod y flwyddyn galendr i sicrhau nad yw nifer yr achosion blynyddol yn mynd uwchlaw 35. Mae llawer o gamau eisoes yn cael eu cymryd bob dydd i leihau'r risg o fynd uwchlaw'r trothwy. Er enghraifft, gweler cynllun gweithredu ansawdd aer yr awdurdod lleol yn atodiad 5 a rhaglen waith y Tîm Data PM₁₀ yn atodiad 7.


Pan eir uwchlaw'r trothwy, edrychir ar y canlyniadau o fonitorau tebyg ledled y De a thu hwnt. Bydd hyn yn sefydlu a yw hwn yn fater lleol neu'n fater ehangach. Os mai dim ond monitorau lleol sy'n cael eu heffeithio, bydd y gwaith dur yn lansio ymchwiliad ac yn gwirio a allai eu gwaith nhw neu waith contractwyr fod yn achosi'r broblem. Os mai nhw sy'n gyfrifol, gallant addasu gweithgareddau eu safle.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cynnal asesiad o gyfranwyr posibl at yr achosion o fynd uwchlaw'r trothwy lle mae'r wybodaeth feteorolegol yn dangos nad safle'r gwaith dur yw'r ffynhonnell.

Mae'r holl ymchwiliadau i ddiwrnodau yr eir uwchlaw'r trothwy yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd Tîm Data PM₁₀.

6. Monitro a Gwerthuso

Mae monitro a gwerthuso yn rhan annatod o Aer Glân i Bort Talbot, Cynllun Gweithredu Tymor Byr 2012.



Wrth gyflwyno'r cynllun, bydd y cofnodion canlynol yn cael eu cwblhau fel cofnod o'r cyfarfodydd a gynhelir o dan y Mesurau Wales_001 and Wales_002.

Bydd gwybodaeth am weithredu'r cynllun hwn ar gael i'r cyhoedd ar gais.

Atodiad 1: Cofnod Monitro

Ble rydyn ni arni nawr?

Dyddiad y cyfarfod gweithredu:

Sefydliadau sy'n bresennol:	
Dyddiad mynd uwchlaw'r trothwy ddiwethaf:	
Nifer yr achosion o fynd uwchlaw'r trothwy eleni:	

Deall y sefyllfa bresennol

Rhif yr achos o fynd uwchlaw'r trothwy:	
Dyddiad yr achos:	
Math o achos:	Rhanbarthol / Lleol
Y rheswm dros fynd uwchlaw'r trothwy:	

Ar gyfer pob achos o fynd uwchlaw yn y flwyddyn galendr hon, cwblheir y tabl canlynol.

Cymryd camau

Ar gyfer pob cam i'w gymryd, trafodir y pwyntiau canlynol;

- Pa gamau fydd yn cael eu cymryd?
- Pwy fydd yn cymryd y camau?
- Pryd fydd y camau'n cael eu cymryd?
- Pa adnoddau sy'n ofynnol?
- Pwy fydd yn monitro'r camau?
- Sut fydd y camau'n cael eu monitro?
- Pryd fydd y camau'n cael eu hadolygu?
- Beth yw'r dangosyddion llwyddiant?
- Pa ganlyniad ydyn ni'n gweithio tuag ato?
- Pwy sydd wedi cymeradwyo'r camau hyn?

Atodiad 2: Cofnod Gwerthuso

Dyddiad y cyfarfod gwerthuso:	
Sefydliadau sy'n bresennol:	
Dyddiad mynd uwchlaw'r trothwy diwethaf:	
Nifer yr achosion o fynd uwchlaw'r trothwy yn y flwyddyn calendr hon:	

Ar gyfer pob cam a gymerwyd, trafodir y pwyntiau canlynol.

- Pa gamau a gymerwyd?
- Pwy gymerodd y camau?
- Pryd y cymerwyd y camau?
- Statws y camau gweithredu? Wedi'u cwblhau / ar waith / wedi'u gohirio
- Pwy wnaeth fonitro'r camau?
- Sut y cafodd y camau eu monitro?
- A oedd y camau'n llwyddiannus?
- Effeithiolrwydd y camau?
- Data a ddefnyddiwyd?
- Gwersi a ddysgwyd?
- Pwy sydd wedi cymeradwyo'r gwerthusiad hwn?

ATODIADAU

Mae yna sawl adroddiad a chynllun sy'n gweithio tuag at wella ansawdd aer ym Mhort Talbot. Maent wedi'u cynnwys fel atodiadau i Aer Glân i Bort Talbot, Cynllun Gweithredu Tymor Byr 2012 fel eu bod ar gael i'r cyhoedd.

1. Rolau a Chyfrifoldebau

- Llywodraeth Cymru

Mae gwella ansawdd aer yn amcan allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â ffynonellau PM_{10} a sicrhau hawl pobl i aer glân. Mae ansawdd aer wedi bod yn gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae llawer i'w wneud o hyd felly byddwn yn parhau i weithio tuag at wneud gwelliannau pellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni gwerthoedd terfyn a sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop yng Nghymru. Rydym yn cymryd ein rhwymedigaeth i leihau llygredd aer o ddifrif. Fodd bynnag, ein hymrwymiad cryf i amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd yw ein sbardun, yn hytrach na dim ond deddfwriaeth Ewropeaidd.

Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y diwydiant a rhanddeiliaid eraill i amddiffyn a gwella ansawdd aer yng Nghymru. Weithiau, mae ein rôl yn cynnwys pwysu a herio'r sefydliadau hyn i sicrhau effeithiau llygredd aer yn cael eu lleihau yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

Er mwyn gallu gwneud cynnydd go iawn wrth fynd i'r afael â materion ansawdd aer ym Mhort Talbot, mae angen arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru. Gweler Pennod 5 ar Drefniadau Llywodraethu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am rwydweithiau monitro cenedlaethol yng Nghymru ac am adrodd data i'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n asesu cydymffurfiaeth â'r holl werthoedd terfyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli pob math o rwydweithiau monitro ansawdd aer cenedlaethol, gan gynnwys yr AURN, Metelau, Hydrocarbonau, dyddodiadau llygredd a'u heffeithiau a'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol. Rydym hefyd wedi datblygu ac yn parhau i reoli Cronfa Ddata Ansawdd Aer Cymru (WAQD). Mae hon yn ystorfa ar gyfer yr holl ddata

monitro ansawdd aer a gedwir, gyda chofnodion yn dyddio'n ôl i 1986 ar gyfer rhai safleoedd. Mae'r data hwn ar gael i'r cyhoedd fel archif ac, ar gyfer rhai safleoedd, mewn 'amser real' ochr yn ochr â rhagolygon ansawdd aer ar gyfer Cymru ar wefan ansawdd aer Cymru: <https://airquality.gov.wales/cy>

Mae amrywiaeth o wybodaeth arall, gan gynnwys cyngor iechyd a gwybodaeth am lygryddion unigol, ar y wefan hefyd. Yn ogystal, mae'r WAQD yn darparu pob math o gymorth technegol a dadansoddol i awdurdodau lleol yng Nghymru i helpu i reoli ansawdd aer yn fwy effeithiol ar lefel leol a chyflawni eu cyfrifoldebau o dan y system Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM).

Mae'r cyfuniad o'r rhwydweithiau, WAQD, y wefan a swyddogaeth cymorth technegol gysylltiedig yn darparu sail dystiolaeth addas i'r diben ar gyfer y rhwydwaith monitro sy'n cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop a Chyfarwyddeb 2004/107/EC ar As, Cd, Hg, Ni a PAHs yn yr aer amgylchol.

Mae llawer o feysydd, gan gynnwys Iechyd, Datblygu Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a Materion Gwledig, yn rhan o ddull cyfannol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â materion ansawdd aer. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ansawdd aer wrth ddatblygu polisi mewn meysydd megis cynllunio, trafndiaeth a Nodiadau Cyngor Technegol (TANs).

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o oblygiadau iechyd PM_{10} (er enghraifft, cael y wybodaeth ddiweddaraf am astudiaethau Sefydliad Iechyd y Byd) a'r ddealltwriaeth o lygredd trawsffiniol.

Yn gryno, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â deddfwriaeth Ewropeaidd a Domestig ac i amddiffyn iechyd pobl a gwella'r amgylchedd.

- Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru amryw o ddyletswyddau yn ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio allyriadau o gyfleusterau diwydiannol o dan ddeddfwriaeth yr UE, felly mae ganddo rôl o ran sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r UE ar atal a rheoli llygredd integredig (IPPC), Cyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac aer glanach ar gyfer Ewrop, Cyfarwyddeb 2004/107/EC ar As, Cd, Hg, Ni a PAHs yn yr aer amgylchol a Chyfarwyddeb 2001/81/EC ar Derfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu awdurdodau lleol i wella ansawdd aer lleol.

Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio'r broses o ryddhau i'r aer lygryddion o sefydliadau diwydiannol mawr neu fwy cymhleth yng Nghymru a Lloegr o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r Rheoliadau hynny yn trosi gofynion y Cyfarwyddebau presennol ar atal a rheoli llygredd integredig (IPPC), ffatrioedd hylosgi mawr, llosgi gwastraff a gweithgareddau sy'n defnyddio toddyddion organig anwedol. Mae'r Cyfarwyddebau hynny wedi'u had-drefnu yng Nghyfarwyddeb 2010/75/EU ar Allyriadau Diwydiannol y mae'n rhaid ei throsi erbyn 7 Ionawr 2013. Bydd yn cynnal ac, mewn rhai achosion, yn cryfhau gofynion y gwahanol Gyfarwyddebau^[1].

Mae'r Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd Integredig ^[2] yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithredwr ddefnyddio'r Technegau Gorau Posibl (BAT) i ddarparu lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer yr amgylchedd cyfan. Lle bo angen cyflawni safon ansawdd amgylcheddol a amlinellir mewn deddfwriaeth Ewropeaidd, mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru osod amodau mwy caeth na'r rhai y byddai eu hangen o dan BAT. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio ei bwerau rheoli llygredd i sicrhau bod safleoedd a reoleiddir yn gwneud cyfraniad teg at fodloni targedau cenedlaethol neu ryngwladol ^[3], gan ystyried ffynonellau eraill.

1 Ar gyfer rhestr lawn o'r Gyfarwyddebau hynny, gweler paragraff (1)

<http://eur-lex.europa.eu/lexUriServ.do?uri=CELEX:2010L0075:EN:NOT>

2 Mae'r Gyfarwyddeb IPPC hon bellach wedi'i hymgorffori yn y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol.

3 Er enghraifft, mae'r Gyfarwyddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol yn gosod rhwymedigaethau ar y DU i gyflawni targedau ar gyfer rhyddhau amonia, nitrogen deuocsid, VOCs nad ydynt yn cynnwys methan a sylffwr deuocsid erbyn 2010.

Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Rheoli Ansawdd Aer Lleol:

Roedd Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer genedlaethol a sefydlu'r system Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM). Mae'r Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn amlinellu amcanion ansawdd aer a pholisi'r llywodraeth ar gyfer gwella ansawdd aer yn y DU. Mae gan y llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig gyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau bod y DU yn cyflawni gwerthoedd terfyn.

Mae'r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer ar gyfer saith llygrydd; gronynnau (PM₁₀), nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid, bensen, 1,3-bwtadeuen, carbon monocsid a phlwm. Os nad yw'r amcanion ar gyfer y llygryddion hyn yn debygol o gael eu cyflawni, rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer a chynhyrchu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) i weithio tuag at gyflawni'r amcanion.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth am brosesau rheoleiddio i'w galluogi i gynnal eu Hadolygiad a'u Hasesiad ansawdd aer. Byddant yn ymchwilio i ba welliannau y gellir eu gwneud os yw sefydliad y maent yn ei reoleiddio yn cyfrannu'n sylweddol at dorri amcan cenedlaethol neu y rhagwelir y bydd yn gwneud hynny. Lle bo angen, bydd hi'n ofynnol i weithredwr fonitro ansawdd aer lleol *ad hoc* neu osod gorsafoddd monitro tymor hwy.

Monitro ansawdd aer yng Nghymru:

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith monitro ansawdd aer yn cael ei gyflawni gan Lywodraeth neu awdurdodau lleol. Fel rhan o'u cyfrifoldebau rheoli llygredd, maent yn cynnal ymgyrchoedd monitro tymor byr yng nghyffiniau prosesau y maent yn eu rheoleiddio. Fel arfer, bydd y rhain ar waith am rhwng tri a chwe mis gan ddefnyddio Cyfleuster Monitro Symudol (MMF).

Yn dilyn Digwyddiad Buncefield yn 2005, comisiynodd Defra Asiantaeth yr Amgylchedd i sefydlu gallu cydgysylltu a monitro ansawdd aer i ddarparu gwybodaeth i'r Strwythur Gorchymyn Strategol. Rhoddwyd hwn ar waith yn llawn ym mis Ebrill 2010. Mae'r gallu yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan Cyfoeth

Naturiol Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu trwy ddau dîm monitro sydd wedi'u gwasgaru ledled Cymru.

-Tudalen 31 o 43

Ansawdd Aer ym Mhort Talbot:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a rhanddeiliaid eraill megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, Harsco, Tarmac a Tata Steel UK fel rhan o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i archwilio a gwella ansawdd aer. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, Tîm Data PM_{10} , Grŵp Rheoleiddwyr, Grŵp Llywio a helpu i ymateb i argymhellion y Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer (AQEG).

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCPT) ddyletswydd o dan adran 84 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i asesu ansawdd aer a datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) lle ystyrir bod amcan ansawdd aer yn debygol o gael ei dorri. O ganlyniad, cafodd AQMA Taibach Margam ei datgan yn 2000 a Chynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) ei fabwysiadu yn 2002. Yn ddiweddar, adolygodd y Cyngor yr AQAP er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol a chyfredol.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) yn ddiweddar er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol a chyfredol. Roedd hwn yn un o argymhellion adroddiad annibynnol UWE hefyd (Atodiad 2). Cynhaliwyd ymgynghoriad ac ystyriwyd y sylwadau a wnaed. Mae'r AQAP yn nodi'r camau i'w cymryd gan y Cyngor ac eraill i geisio datrys y broblem PM_{10} ym Mhort Talbot. Mae'n nodi hefyd gyfyngiadau pwerau uniongyrchol CBSCPT o ran mynd i'r afael â ffynonellau mwyaf sylweddol PM_{10} ym Mhort Talbot.

Mae'r Cyngor yn parhau i reoleiddio Civil & Marine Slag Cement, is-gontractwr yn y safle gwaith dur, yn unol â'r drwydded, a chwblhaodd adolygiad o'r drwydded ar gais Llywodraeth Cymru yn 2008. Mae'r gwaith o reoleiddio malu a sgrinio slag ffwrnais bellach wedi'i drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru gan y bernir ei fod yn darparu ar gyfer gwell rheoleiddio integredig.

Mae'r Cyngor yn monitro PM_{10} mewn saith lleoliad ym Mhort Talbot. Yr ychwanegiad diweddaraf yw monitor yng Nghlwb Rygbi Green Stars yn Little Warren. Cafodd y monitor hwn ei gyflwyno o ganlyniad i argymhelliad gan AQEG. Mae mast meteorolegol 10 metr a synwryddion wedi'u defnyddio hefyd. Mae data o'r holl orsafoedd monitro yn cael ei rannu gyda phartneriaid er mwyn ymchwilio i ffynhonnell PM_{10} ar ddiwrnodau rhagori.

Mae gan y Cyngor system rhybuddion e-bost a ddyluniwyd i ddarparu rhybuddion ynghylch dirywiad ansawdd aer i grwpiau perthnasol. Mae'r grwpiau hyn yn defnyddio'r wybodaeth i geisio ymyrryd ac atal diwrnodau mynd uwchlaw'r trothwy PM₁₀.

Mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni ei ofynion i asesu ansawdd aer o dan y system Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM). Mae hyn yn cynnwys Adroddiadau Cynnydd, Diweddarau a Sgrinio Asesiadau ac Adroddiadau Manwl lle bo angen.

Mae'r Cyngor wedi cynnal deialog rheolaidd gyda rheolwyr y Ffordd Ddosbarthu Berifferol (PDR)^[1] er mwyn lleihau effaith PM₁₀ y prosiect adeiladu ar Bort Talbot.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud gwaith dilynol ar unrhyw adroddiadau o drenau llychlyd, ac mae wedi cysylltu â Freightliner i ddatrys problemau o'r fath.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd Tîm Data PM₁₀, Grŵp Llywio a Grŵp Rheoleiddwyr rheolaidd er mwyn cyflawni nodau ac amcanion pob grŵp. Bydd y Cyngor yn parhau i gyflawni gweithgareddau a nodwyd ar gyfer gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot gan argymhellion AQEG neu o dan Raglen Waith y Tîm Data.

Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael effaith andwyol ar lefelau PM₁₀ ym Mhort Talbot. Cyflawnir hyn yn rhannol trwy'r Cynllun Datblygu Unedol a bydd polisi i'r dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (LDP). Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth.

1 Harbour Way yw'r prosiect trafniadaeth mwyaf i Gymru ers creu'r M4. Bydd yn darparu cyswllt 4.8 cilometr i'r draffordd yng Nghyffordd 38 (Margam) i Bort Talbot a'r Dociau, gan weithredu fel cysylltiad hollbwysig i'r Gorllewin, rhwydwaith traffyrdd y DU a thir mawr Ewrop. I gael mwy o fanylion, ewch i: <http://www.harbourwayproject.com/>

Bydd y Cyngor yn parhau i gymryd rhan ym Mhrosiect Ansawdd Aer y Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Mae gan y prosiect gylch gwaith ehangach na PM_{10} Port Talbot, ond hwn yw'r prif ffocws. Mae hyn yn golygu lefel sylweddol o ymgysylltu â diwydiant a'r cyhoedd. I'r perwyl hwn, trefnwyd digwyddiad ym Mhort Talbot ym mis Gorffennaf 2010 a digwyddiad arall yng Nghastell-nedd ym mis Mawrth 2012. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae cynghorwyr a swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â gweithredwyr diwydiannol yn ardal Port Talbot i sicrhau cyfathrebu ar bob lefel o'r sefydliadau.

Mae'r Cyngor yn cynnal tudalennau ansawdd aer fel rhan o'i [wefan](#) hefyd. Mae'r wefan hon yn galluogi defnyddwyr i ymchwilio i lefelau ansawdd aer presennol o saith monitor PM_{10} y Cyngor, yn darparu mynediad at holl adroddiadau ansawdd aer y Cyngor ac yn darparu gwybodaeth gyffredinol i'r cyhoedd am ansawdd aer. Datblygodd y Cyngor [wefan](#) annhechnegol newydd mewn cydweithrediad â'r cyhoedd ac ysgolion lleol yn 2012.

2. Adroddiad UWE

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad arbenigol annibynnol o waith monitro a modelu PM_{10} yn ardal Castell-nedd Port Talbot gan Brifysgol Gorllewin Lloegr i ddarparu cyngor i Weinidogion ar fesurau pellach y gellid eu defnyddio i ddod o hyd i ffynonellau Deunydd Gronynnol.

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad hwn ym mis Tachwedd 2009. Gwnaeth yr adroddiad sawl argymhelliad manwl ar gyfer gwaith pellach sydd naill ai wedi'u cwblhau neu sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Mae adroddiad UWE ar gael ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

3. Nodyn cyngor AQEG

Yn 2010, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer (AQEG) ddarparu barn arbenigol annibynnol ar

“What methodologies or approaches are required to advance the evidence base in order to assess the impact of the different current particle sources within the Port Talbot area on the resultant Particulate Matter (PM) levels in the local area.”

Cynhaliodd AQEG sesiwn dystiolaeth agored undydd i lywio'r gwaith hwn ym Mhort Talbot ym mis Tachwedd 2010, a chynhaliodd gyfarfodydd crynhoi gwybodaeth ychwanegol gyda Tata Steel UK. Daeth y rheoleiddwyr, gweithredwyr y diwydiant, academyddion, pobl leol a grwpiau pwysau ynghyd i roi tystiolaeth yn y sesiwn agored, gan ddarparu trosolwg o wybodaeth a barn bresennol yn yr ardal.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, cynhyrnodd AQEG Nodyn Cyngor o'r enw *Understanding PM₁₀ in Port Talbot* ym mis Mawrth 2011. Roedd y nodyn cyngor yn cynnwys 12 o argymhellion ar gyfer datblygu'r sail dystiolaeth ar gyfraniad ffynonellau a chrynodeiadau gronynnau yn yr ardaloedd i'w datblygu mewn partneriaeth gan Lywodraeth Cymru, rheoleiddwyr a gweithredwyr diwydiannol. Mae nodyn cyngor AQEG ar gael ar [wefan](#) Defra.

4. Adolygiad Trwyddedau Rheoleiddwyr

Un o elfennau allweddol cynllun gweithredu tymor byr 2008 oedd i'r rheoleiddwyr amgylcheddol adolygu'r trwyddedau amgylcheddol sydd gan waith dur Port Talbot ar gyfer allyriadau Deunydd Gronynnol. Mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol yn gyfrifol am bennu amodau trwyddedau ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu cwmpasu gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.

Y rheoleiddwyr amgylcheddol yn yr achos hwn yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (sydd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCPT).

Mae crynodebau gweithredol yr adolygiad rheoleiddwyr ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

Gallwch gael copi o adroddiad llawn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes Newydd,
Llandarcy,

SA10 6JQ

Ffôn: 03708 506506

Gallwch gael copi o adroddiad llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gan:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Ceiau,
Ffordd Brunel,
Parc Ynni Baglan,
SA11 2GG.

5. Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer CBSCPT

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardaloedd. Os yw hi'n annhebygol y bydd unrhyw un o amcanion ansawdd aer y llywodraeth yn cael ei gyflawni, rhaid i awdurdodau lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA). Yna, rhaid cynhyrchu Cynllun Gweithredu sy'n disgrifio sut y cydymffurfir â'r safonau ansawdd aer yn AQMA.

Datganodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn ardal Taibach a Margam ym Mhort Talbot yn 2000. Roedd hyn yn angenrheidiol gan fod lefelau gronynnau mân (PM₁₀) yn rhagori ar yr Amcan Ansawdd Aer tymor byr arfaethedig. Lluniwyd Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer yn 2002 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang. Mae'r ddogfen bresennol yn diweddarar'r cynllun hwn.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cydnabod cyfyngiadau pwerau'r Cyngor o ran rheoli'n uniongyrchol allyriadau o waith dur Port Talbot. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n bennaf cyfrifol am reoleiddio'r safle hwn. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod hefyd bwysigrwydd gweithredu ar y cyd gan wahanol sefydliadau o ran ceisio ymchwilio a datrys ffynonellau lleol PM₁₀. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Tata Steel UK, Cambrian Stone Limited, Harsco Metals Limited, Costain, aelodau Byrddau Gwasanaeth Lleol ac eraill.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cydnabod holl bolisïau a strategaethau corfforaethol a strategol eraill y Cyngor e.e. iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, cynllun cymunedol a strategaeth amgylcheddol. Mae wedi bod yn destun ymgynghoriad eang, ac wedi'i addasu lle bo hynny'n briodol.

Gellir lawrlwytho'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn o [wefan](#) CBSCT.

6. Siarter Aer Glân

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'i asiantaethau partner wedi ymrwmo i sicrhau bod pob rhan o'r fwrdeistref sirol yn cyrraedd ac yn cynnal safonau cenedlaethol ar gyfer ansawdd aer. Er mwyn helpu i roi ffocws ar gyfer cyflawni hyn, rydym wedi datblygu Siarter Aer Glân. Cefnogir y siarter gan arweinwyr gwleidyddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, gan sefydliadau partner a chan fusnesau yn yr ardal. Mae'r siarter yn egluro'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i ddiogelu iechyd a lles dinasyddion, trigolion, busnesau ac ymwelwyr Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Siarter i'w gweld ar [wefan](#) y Cyngor.

7. Rhaglen waith tîm data PM_{10} Port Talbot

Mae Tîm Data PM_{10} Port Talbot yn cynnwys staff Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyfoeth Naturiol Cymru a gweithredwyr o ddiwydiant lleol. Dyma'r gweithgor technegol sy'n craffu ar y dystiolaeth bellach sydd ei hangen i wella crynodiadau PM_{10} ym Mhort Talbot. Ei dasg yw adolygu'r data ar PM_{10} a gwella'r dulliau o reoli a dehongli'r data ar draws y gwahanol sefydliadau.

Mae gwaith y grŵp wedi datblygu i fod yn rhaglen waith y tîm data PM_{10} i sicrhau y caiff ei gyflawni mewn ffordd gydlynol a chyson. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i'r rhaglen waith hon.

Mae gan bob tasg sefydliad arweiniol a rhoddir diweddariadau cynnydd ar y ddogfen bob deufis.

Mae dogfen y rhaglen waith i'w gweld ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

8. Cylch Gorchwyl ar gyfer gweithgorau

Mae sicrhau ein bod yn cymryd y camau priodol i wella ansawdd aer ym Mhort Talbot yn hollbwysig. Rhaid i'r camau hynny gael eu datblygu ar sail tystiolaeth gadarn er mwyn sicrhau bod mesurau'n cael eu targedu a'u bod yn effeithiol yn y tymor byr ac yn y dyfodol. Ein gobaith yw y bydd llwyddiant y gwaith partneriaeth presennol rhwng y Llywodraeth, Rheoleiddwyr a Gweithredwyr yn parhau.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â gweithredwyr y gwaith dur, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i nodi ffynonellau posibl lefelau uchel o lygredd a ffyrdd o'u datrys.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn digwydd yn y fforymau canlynol:

- Grŵp Llywio, sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, gyda'r diben o adolygu gwaith parhaus a chyfeirio adnoddau'n briodol.
- Grŵp Rheoleiddwyr, sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, i adolygu'r camau sy'n cael eu cymryd gan y rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru ym Mhort Talbot.

Tîm Data, sy'n cyfarfod bob mis, gyda'r dasg o adolygu'r data ar PM_{10} a gwella'r dulliau o reoli a dehongli'r data ar draws y gwahanol sefydliadau.

Mae dogfen y rhaglen waith i'w gweld ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

9. Treftadaeth Ddiwydiannol

Mae Port Talbot yn ein hatgoffa o dreftadaeth ddiwydiannol falch De Cymru. Diolch i ddatblygiad y diwydiannau glo a haearn, daeth yr ardal yn ganolbwynt i'r gweithgarwch yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Mae'n bwysig deall cefndir hanesyddol yr ardal gan ei fod yn esbonio natur y dref heddiw.

Datblygodd y diwydiant haearn yn ne Cymru oherwydd bod mwyn haearn a glo o Feysydd Glo De Cymru a chyflenwadau lleol o galchfaen ar garreg y drws; symudwyd ymlaen i gynhyrchu dur dros y blynyddoedd. Datblygodd y diwydiant tunplat o'r diwydiant haearn a dur, yn ogystal â diwydiannau eraill fel sawl gwaith cemegol, llenddur, gwaith nwy a chwmnïau peirianyddol. Dylanwadwyd ar y safleoedd hyn gan yr ystyriaethau daearyddol ac o ganlyniad fe'u lleolwyd ger afonydd a'r arfordir. Daeth aneddiadau bach fel Port Talbot, yn ganolfan ddiwydiannol fawr gyda mewnfudo o ganlyniad i hynny.

Mae'r ardal yn uchel ei pharch ledled y byd am ei chryfderau diwydiannol ac am fod ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y sectorau gweithgynhyrchu a gwyddorau bywyd. Am gannoedd o flynyddoedd mae'r trefi yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi chwarae rhan bwysig yn y diwydiant trwm.

10. Ansawdd Aer - y cyd-destun deddfwriaethol

Y Gyfarwyddeb Ewropeaidd

Daeth Cyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchol ac Aer Glanach i Ewrop - y Gyfarwyddeb CAFÉ - i rym ar 11 Mehefin 2008. Mae'n cydgrynhoi ac yn diddymu deddfwriaeth flaenorol ar ansawdd aer amgylchol ac eithrio'r Pedwerydd Epil Gyfarwyddeb. Mae'r Pedwerydd Epil Gyfarwyddeb yn ymwneud ag arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau polysyclig mewn aer amgylchynol.

Rheoliadau Cymru

Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 yn ymgorffori Cyfarwyddeb CAFÉ a'r Pedwerydd Epil Gyfarwyddeb yng nghyfraith Cymru, ac yn disodli Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007. Daw'r Rheoliadau i rym ar 11 Mehefin 2010.

Strategaeth Ansawdd Aer (AQS) y DU

Mae'r Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (AQS) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2007, yn nodi'r amcanion a'r polisïau i wella ansawdd aer yn y DU yn y tymor hir o dan adran 80 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Mae'n nodi'r camau gweithredu i'w cymryd ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol ac yn darparu fframwaith sy'n caniatáu i bartïon perthnasol fel diwydiant a llywodraeth leol nodi'r cyfraniadau y gallant eu gwneud i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.

Mae'n cynnwys polisïau ar gyfer mynd i'r afael â llygredd aer ac yn gosod safonau ansawdd aer ar gyfer wyth llygrydd aer allweddol. Mae hyn yn ystyried y canfyddiadau a'r casgliadau ymchwil diweddaraf ar effeithiau llygredd aer ar iechyd a datblygiadau technegol ac esblygiad polisi.

Mae'r Strategaeth:

- yn nodi ffordd ymlaen ar gyfer gwaith a chynllunio ar faterion ansawdd aer
- yn nodi'r safonau a'r amcanion ansawdd aer sy'n cyd-fynd yn fras â'r rheini a bennwyd o fewn Cyfarwyddebau'r UE
- yn cyflwyno polisi newydd ar gyfer mynd i'r afael â gronynnau mân
- yn nodi polisïau newydd posibl a allai roi manteision iechyd pellach a symud yn agosach at gyflawni amcanion y Strategaeth

Gellir dod o hyd i'r ddogfen honno yn: [Strategaeth Ansawdd Aer y DU](#)

Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM)

Rhaid i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau ac asesiadau rheolaidd o ansawdd aer yn eu hardal yn erbyn safonau ac amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol o dan y gyfundrefn rheoli ansawdd aer lleol (LAQM) o dan adran 84 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Lle nad yw'n debygol y bydd y safonau a'r amcanion hyn yn cael eu bodloni, rhaid i awdurdodau:

- ddynodi ardaloedd rheoli ansawdd aer (AQMA's); a
- pharatoi a gweithredu cynlluniau gweithredu adferol.

Nod adolygiadau o'r fath yw sicrhau bod safonau ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu bodloni a bod y risg bosibl y bydd llygryddion aer yn cael effaith ar iechyd mor isel â phosibl.

Mae sawl Awdurdod Lleol wedi datgan AQMA's a nitrogen deuocsid yw'r prif lygrydd sy'n gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, ym Mhort Talbot y llygrydd sy'n peri pryder yw PM_{10} (a ddiffinnir yn fras fel Deunydd Gronynnol yn yr awyr sydd â diamedr aerodynamig o dan 10 micrometr).

Y Gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)

Mae'r Gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol (EPR), sy'n deillio o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, yn gyfundrefn reoliadol ar gyfer rheoli llygredd o weithgareddau diwydiannol penodol. Yn dibynnu ar natur y gweithrediad dan sylw, mae'r gyfundrefn yn cael ei gweinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdodau lleol (y rheoleiddwyr).

Prif nod yr EPR yw sicrhau lefel uchel o warchodaeth amgylcheddol. Mae'n ofynnol bod gweithredwyr gosodiadau sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n dod o fewn cwmpas Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007 yn dal "trwydded amgylcheddol". Bydd y drwydded amgylcheddol yn nodi o dan ba amodau y gellir cynnal y gweithgaredd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i'r rheoleiddwyr ar gymhwyso'r EPR. Mae'r rhain i'w gweld ar [wefan](#) DEFRA:

O dan y Rheoliadau, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r rheoleiddwyr mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gyfundrefn EPR ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

11. Talfyriadau a Geirfa

µm	Micromedr
µg.m ⁻³	Microgram ym mhob metr ciwbig
AQMA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer
AQAP	Cynllun gweithredu ansawdd aer
AURN	Rhwydwaith Monitro Trefol a Gwledig awtomatig
AQS	Strategaeth Ansawdd Aer
BAT	y technegau gorau sydd ar gael
CO	carbon monocsid
CO ₂	carbon deuocsid
NO	ocsid nitrig
NO ₂	nitrogen deuocsid
NOX	ocsidau nitrogen, swm NO a NO ₂
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
EA	Asiantaeth yr amgylchedd
CE	Comisiwn Ewropeaidd
EPR	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010
UE	Undeb Ewropeaidd
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
IPPC	Y Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd
LAQM	Rheoli Ansawdd Aer Lleol
O ₃	oson
PAHs	hydrocarbonau polysyclig aromatig
PM ₁₀	Deunydd Gronynnol sy'n mynd drwy fewnfa maint-ddetholus sydd ag effeithlonrwydd rhwystro o 50% ar gyfer gronynnau â diamedr aerodynamig o 10µm
PM 2.5	Deunydd Gronynnol sy'n mynd drwy fewnfa maint-ddetholus sydd ag effeithlonrwydd rhwystro o 50% ar gyfer gronynnau â diamedr aerodynamig o 2.5µm